# Cymeriadau Difyr

| | |
|---|---|
| Agwedd: | **Siapiau 2D** |
| Adnoddau: | • Set fawr o siapiau 2D o amrywiol feintiau – triongl, sgwâr, petryal, cylch.<br>• Sialc.<br>• Hudlath/rhuban i bob dysgwr.<br><br>**<u>Adnoddau digidol:</u>**<br>Cyflwyniad sy'n dangos pob un o'r siapiau – *gweler y ddogfen 'Siapiau 2D – cyflwyniad'.* |
| Camau: | **<u>Cam 1: Cyflwyniad digidol</u>**<br>Astudio pob siâp gan drafod eu priodweddau, e.e. sawl ochr, cornel ayyb.<br><br>**<u>Cam 2: Didoli</u>**<br>• Pentwr o siapiau amrywiol.<br>• Didoli'r siapiau yn ôl eu henwau.<br>• Cyfrif sawl un o bob siâp sydd yno.<br>• Cofnodi'r rhif a chyfateb gyda numicon.<br><br>**<u>Cam 3: Siapiau mawr</u>**<br>• Rhoi rhuban hir neu hudlath i bob dysgwr.<br>• Y dysgwyr i greu amlinelliad o bob siâp yn yr awyr gyda'u rhuban/hudlath. (Ymarfer sgiliau echddygol mawr.)<br>NEU – un dysgwr yn sefyll o flaen y lleill ac yn creu amlinelliad o siâp yn yr awyr. Y gweddill yn ceisio dyfalu pa siâp wnaeth ef/hi ei greu.<br><br>**<u>Cam 4: Clai</u>**<br>Torri siapau yn y clai gan ddefnyddio torwyr/stampiau neu eu gwneud â llaw rydd.<br><br>**<u>Cam 5: Ardal allanol</u>**<br>Mynd am daith o gwmpas campws yr ysgol/adeilad yr ysgol yn chwilio am siapiau o'u cwmpas.<br>Llenwi siart rhicbren er mwyn cofnodi sawl un a welir.<br>Trafod y data ar ôl dychwelyd i'r dosbarth.<br>Trafod:<br>• Sawl triongl welon ni?<br>• Pa siâp oedd yr un mwyaf poblogaidd?<br>• Ble welon ni gylch?<br>• Cofnodi'r data mewn pictogram. |



| | |
|---|---|
| | **<u>Cam 6: Helfa'r siapau</u>**<br>Cuddio llawer o siapiau yn yr ardal allanol a'r dysgwyr i fynd i chwilio amdanynt. Eu didoli i grwpiau yn ôl eu siâp ar ôl eu casglu. Yna eu cyfrif a chofnodi eu niferoedd.<br><br>Sialc – tynnu llun y siapiau ar lawr/wal/bwrdd sialc yn yr ardal allanol. |
| Cwestiynu: | • Beth yw enw'r siâp hwn?<br>• Sawl cornel/ochr sydd gan y siâp?<br>• Ble welwch chi driongl/petryal/sgwâr? |
| Beth nesaf? | Gwneud gweithgareddau tebyg wrth astudio siapiau 3D. |

